



**Adroddiad Cyfarfod**  
**08:09:21**  
**Noson Gymdeithasol**

Braf oedd cael agor gweithgareddau Merched y Wawr wyneb yn wyneb nos Fercher Medi 8fed. Croesawodd y Llywydd Anne Elis nifer dda iawn o aelodau i'r Neuadd bentref fel ein lleoliad newydd. Penderfynwyd cynnal ein gweithgareddau yn y neuadd eleni gan ei bod yn haws dilyn canllawiau'r llywodraeth i'n cadw'n saff yn ystod y cyfnod Covid.

Noson oedd hon i roi cyfle i'r aelodau dalu tâlu aelodaeth ac i gymdeithasu a sgwrsio ym mysg ein gilydd.

Dymunwyd yn dda i'r bobl ifainc wrth ddechrau cyfnod newydd mewn ysgol, coleg neu swydd newydd.

Cydymdeimlwyd a Rhian ar golli ei mam yn ddiweddar a hefyd i Anita ar teulu yn eu colled hwythau o golli Anni Garth mor ddisymwyth, mae ein meddyliau efo hwy i gyd.

Dymunwyd gwellhad buan i Dilys Perez wedi ei chodwm a hefyd i Nan Rowlands, edrychwn ymlaen i'w gweld yn ôl yn fuan.

Dymunwyd yn dda i lolo a Catrin mab Ellen Ellis ar eu priodas ddydd Sadwrn nesaf. Llongyfarchwyd Gwyneth ac Elwyn ac Eirlys a Gwilym ar ddathlu priodas aur yn ddiweddar.

Llongyfarchwyd Joyce ac Anwen ar ddod yn neiniau, Tomos Alun i Alun ac Elin, brawd bach i Elsi ac Eban Arfon i Rob ac Elin, y ddau deulu yn byw yng Nghaerdydd. Llongyfarchwyd hefyd Mary ar ddod yn hen nain i Lara Cêt.

Darllenwyd yr ohebiaeth gan y mudiad a cheisiwyd annog yr aelodau i gystadlu yn y Ffair Aeaf yn mis Tachwedd.

Mae newidiadau yn nhrefniadau banc HSBC o fis Tachwedd ymlaen pryd bydd rhaid i bob elusen dalu £5 yn mis i'r banc am y cyfrif a hefyd canran am sieciau ac arian parod roir i mewn yn y banc neu ei dynnu allan. Mae'r mudiad yn canolog yn edrych i mewn i hyn.

Gofynwyd am syniadau gan yr aelodau os byddem yn rhoi cais i mewn am arian Loteri eleni.

Diolchwyd i Jen am roi'r raffl a enillwyd gan Mabel.

Yn ein cyfarfod nesaf rhai o'r aelodau fydd yn dangos i ni sut i greu blodau wedi eu gwau, crosio neu efo ffelt a bydd rheini yn mynd mlaen i Aberystwyth yn rhan o enfys Blodau Gobaiith caiff eu harddangos yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron flwyddyn nesa.